

PWYLLGOR CRAFFU ADNODDAU

Cofnodion cyfarfod o Bell a gynhaliwyd ar 21 Mai, 2025.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.J. Protheroe (Cadeirydd); Cynghorwyr G.M. Ball, S. Campbell, G.D.D. Carroll, P. Drake, C.P. Franks, E. Goodjohn, Dr. I.J. Johnson, B. Loveluck-Edwards a J.M. Norman.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr G. Bruce ac L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau).

57 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

58 PENODI IS-GADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – Y Cynghorydd E. Goodjohn yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd am y flwyddyn Ddinesig.

59 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr E.J. Goodjohn, R. Fisher a N.J. Wood.

60 COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL A GYNHALIWDYD AR 9 EBRILL 2025 –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 9 Ebrill, 2025 fel cofnod cywir.

61 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

62 RHAGLEN WAITH YMLAEN 2025/26 (CAC) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu, a gofynnwyd i'r Aelodau ystyried eitemau a phynciau'r Rhaglen Gwaith Ymlaen Flynyddol ddrafft ar gyfer craffu ymchwiliol (Adolygiad Gorchwyl a Gorffen) ar gyfer 2025/26 a'r Pwyllgor Craffu Adnoddau newydd.

Roedd Atodlen Rhaglen Gwaith Ymlaen ddrafft ar gyfer 2025/26 ynghlwm yn Atodiad A a gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried y cynnwys i'w gymeradwyo.

Yn ogystal, gofynnwyd i'r Pwyllgor nodi cylch gwaith y Pwyllgor Craffu Adnoddau, fel y dangosir ym mharagraff 1.2 o'r adroddiad.

Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, gwnaeth Aelodau'r Pwyllgor yr awgrymiadau canlynol ar gyfer pynciau gwaith Gorchwyl a Gorffen:

Aelod Pwyllgor:	Pwnc a awgrymir:	Meysydd Ffocws/ Ymchwilio Posibl
Y Cyngorydd Loveluck-Edwards	Strategaeth Gyfathrebu'r Cyngor	Sut y gellid gwella cyfathrebu, o ran hyrwyddo gwaith llwyddiannus gwasanaethau, a hefyd ynghylch sut mae'r Cyngor yn ymgysylltu ag ymatebion trigolion i'w gyfathrebiadau, yn enwedig ar-lein.
Y Cyngorydd Carroll	Cynhyrchiant o fewn yr Awdurdod	Defnyddio manteision defnyddio AI yng ngwaith y Cyngor; Effaith gweithio gartref ar allbwn y Cyngor.
Y Cyngorydd Carroll	Mynd i'r afael â gwastraff o fewn yr Awdurdod	
Y Cyngorydd Franks	Dadansoddiad Cost/Budd Ariannol o gyflwyno ffioedd parcio ceir ledled Bro Morgannwg.	
Y Cyngorydd Franks	Effaith Polisiâu Celfyddydau'r Cyngor ar fywyd economaidd a chymdeithasol Bro Morgannwg	A yw polisiâu celfyddydol y Cyngor yn cynhyrchu adnoddau ychwanegol – er

		enghraifft, a oes budd o ran creu swyddi A yw gwella bywyd diwylliannol trigolion Bro Morgannwg o fudd i gymaint o bobl â phosibl. Deall effeithiau cadarnhaol buddsoddi mewn gwasanaethau diwylliannol ym Mro Morgannwg – er enghraifft Oriel Gelf Ganolog a Phafiliwn Pier Penarth.
Y Cynghorydd Protheroe	Ailgynllunio'r Ganolfan Gyswllt	Adolygiad o Cyswllt Un Fro, gan gynnwys edrych ar welliannau i'r gwasanaeth, gan gynnwys amseroedd ymateb i alwadau preswylwyr.
Y Cynghorydd Campbell **Oherwydd problemau cysylltiad, darparwyd y rhain yn ystod y cyfarfod trwy alwad ffôn gyda Swyddog cymorth.	Cyfraddau gadael staff y Cyngor	A oes cydberthynas rhwng cyfraddau gadael a dulliau recriwtio, yn enwedig o ran gofal cymdeithasol a staff ysgolion. Gwariant y Cyngor ar staff asiantaeth, a sut y gall hyn gysylltu â phrosesau recriwtio. Hyd y prosesau recriwtio ar gyfer rolau penodol.

Yn dilyn hynny, gwnaeth y Cynghorydd Loveluck-Edwards y pwynt y gallai pwnc Gorchwyl a Gorffen ynglŷn â gweithio gartref fod yn un lle gallai fod yn anodd i'r Aelodau effeithio ar newid, o ystyried bod polisi presennol ar waith, a gytunwyd arno gan randdeiliaid fel yr undebau llafur.

Yn dilyn hynny, rhoddodd swyddogion y cyngor canlynol mewn ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor:

- Roedd y Rhaglen Waith Ddrafft yn fyrrach na'r rhai a ddefnyddiwyd yn y blynyddoedd blaenorol, o ran nifer yr adroddiadau a drefnwyd i gael eu hadrodd i gyfarfodydd y Pwyllgor. Roedd hyn oherwydd nifer o adroddiadau sydd bellach yn eistedd o dan gylch gorchwyl Pwyllgorau Craffu eraill, ond roedd hefyd yn fwriadol, er mwyn annog craffu mwy ystyrlon ar bob eitem, ac i ganiatáu lle ar yr agenda ar gyfer unrhyw eitemau ychwanegol a allai godi wrth i'r flwyddyn ddinesig fynd yn ei flaen, er enghraifft cyfeiriadau gan y Cabinet, neu o ganlyniad i waith Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor.
- Ar y cam hwn, byddai holl awgrymiadau yr Aelodau ar gyfer pynciau Gorchwyl a Gorffen, gan gynnwys y rhai a allai groesi â chylch gwaith Pwyllgorau Craffu eraill, neu a allai fod yn well o fewn cylch gorchwyl Pwyllgorau eraill yn cael eu hystyried, gyda'r bwriad o mireinio a blaenoriaethu'r pynciau hyn, wrth i'r gwaith Gorchwyl a Gorffen ddatblygu.

Heb unrhyw ymholiadau na sylwadau pellach, fe wnaeth y Pwyllgor wedyn:

ARGYMHELLWYD –

- (1) Y BOD drafft cychwynnol Atodlen y Rhaglen Waith Ymlaen ar gyfer 2025/26 (Atodiad A i'r adroddiad) gan gynnwys awgrymiadau ar gyfer meysydd ar gyfer ymchwiliadau adolygu Gorchwyl a Gorffen manwl, yn cael eu cytuno.
- (2) Y BOD cylch gwaith y Pwyllgor Craffu Adnoddau yn cael ei nodi.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Cytuno ar yr eitemau a'r pynciau y bydd y Pwyllgor Craffu Adnoddau yn eu hystyried ar gyfer 2025/26.
- (2) Nodi cylch gwaith y Pwyllgor Craffu Adnoddau newydd.